Cadwyn Bro

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com
Medi 2019 *Rhif 095*

Maen nhw'n dweud fod wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth, ond ar hyn o bryd mae'n synnu dyn cymaint all ddigwydd mewn prynhawn. O fewn rhai wythnosau, os na fydd rhyw newid mawr, mi fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd rhai yn dathlu, ac eraill yn wynebu gofid ac ansicrwydd.

Mae na adnodau o lyfr y proffwyd Micha yn dod i fy meddwl i. Cario neges wrth Dduw i'r bobl oedd gwaith y proffwyd – postmon y goruchaf! Dyna welwn ni yn Micha 6. Mae'r bobl, medd Micha, yn reit dda ar roi sioe grefyddol dda mlaen – taro'r nodau uchel, dweud eu 'Amen' yn y lle cywir – ond go iawn, maen nhw'n bell oddi wrth Dduw yn eu ffordd o fyw ac yn eu holl amcanion. Ond beth mae Duw eisiau oddi wrthyn nhw go iawn? Dyma grynodeb Micha:

> Dywedodd wrthyt, feidrolyn, beth sydd dda,
> a'r hyn a gais yr ARGLWYDD gennyt:
> dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch,
> ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.

I ddechrau, gallwn ni droi'r adnodau hyn yn weddi dros y sefyllfa rydyn ni ynddi. Mae'n oes lle mae pawb yn hoffi dweud am wleidyddion: 'maen nhw'i gyd yr un fath'. Yn ôl un arolwg, dim ond 17% o'r boblogaeth sy'n disgwyl clywed y gwir, yr holl wir, a dim byd ond y gwir gan wleidydd. Rydyn ni'n sinigaidd iawn wrth feddwl am y rheiny sy'n ein harwain! Ydy'r Beibl yn ein herio ni i gael agwedd wahanol? Gallwn weddïo dros ein harweinwyr, gan gofio'r adnodau hyn, a gweddïo y byddan nhw'n dysgu gwir ddoethineb oddi wrth Dduw; y bydden nhw'n gosod gwerth uchel ar ddweud y gwir, ac ar ofalu dros eraill.

Mae adnodau fel hyn hefyd yn ein hatgoffa ni o'r rhan bwysig mae Cristnogion wedi chwarae yn newid ein cymdeithas ni er gwell yn y ddwy ganrif ddiwethaf. Roedden y bobl hyn yn gweld fod pob person byw yn werthfawr yng ngolwg Duw – ac o ganlyniad, roedden nhw'n ymgyrchu'n ddiwyd i wella bywydau ac i herio anghyfiawnder. Fis Awst eleni bu dinas Manceinion yn nodi dwy ganrif ers cyflafan Peterloo – pan ymosododd milwyr yn ddidrugaredd ar dorf heddychlon oedd yn cyfarfod i geisio diwygio seneddol, gan ladd deunaw ac anafu cannoedd.

→

Byddai'r gorymdeithwyr y diwrnod hwnnw yn rhyfeddu wrth weld ein hawliau a'n breintiau ni. Gallwn ni bleidleisio a mynegi'n barn am bethau trwy undeb neu trwy brotest; mae gennym ddeddfau sy'n rhoi hawliau i weithwyr, yn eu rhwystro rhag cael eu ecsploetio neu ei niweidio wrth eu gwaith. Nid dyna'r stori mewn sawl gwlad heddiw. Dylem ni ddefnyddio'n llais a'n breintiau i geisio'r hyn sydd wrth fodd calon Duw - 'dysgwch wneud da. Brwydrwch dros gyfiawnder, o blaid y rhai sy'n cael eu gorthrymu. Cefnogwch hawliau plant amddifad, a dadlau dros achos y weddw.'

Ond os wnawn ni feddwl o ddifrif am eiriau Micha ac Eseia, maen nhw hefyd yn dangos ein gwendid ni. Mae'r mwyafrif llethol ohonon ni, dwi'n siŵr, yn byw gan geisio gwneud beth sy'n iawn. Ond prin y byddwn ni'n cyrraedd ein safonau ni ein hunain, heb sôn am ddelfryd Duw. Mae'n sicr yn dda ac yn ddeniadol, ond rydyn ni'n syrthio'n fyr, ac yn methu'n llwyr. Lle mae'r ateb felly?

Mae i'w gael ar groes Iesu. Mae'r Beibl yn disgrifio Duw sy'n caru'r byd cymaint iddo anfon ei Fab ei hun i'n plith ni. Nid coron na gorsedd yw symbol ein ffydd ni, ond croes – oherwydd i Fab Duw, yr un perffaith, roi ei hun drosom ni. Mae'n ein galw ni i ymddiried yn yr hyn a gyflawnodd trwy ei farwolaeth, a byw gan ei ddilyn, gan ei garu Ef a'i ffyrdd.

DIGWYDDIADUR

Cynhelir **Astudiaeth Feiblaidd** ar yr 11eg a'r 25ain o fis Medi, am 1:30 y.p. yn Festri Capel Trefnant. Croeso cynnes i bawb!

Bydd **Clwb Ieuenctid** yn cael ei gynnal ar y 27ain o Fedi, rhwng 7:00 a 8:30 y.h. Croeso i blant oed uwchradd – am fwy o wybodaeth cysylltwch â Andras.

Cynhelir **Clnio'r Ofalaeth** ddydd Gwener Medi 13eg am 12.00 yn Festri Capel Mawr. Croeso i unrhywun ymuno ac i gymdeithasu gyda'n gilydd dros bryd o fwyd.

Cynhelir **Ffair Hydref Capel y Fron** yn Eirianfa bore Sadwrn Medi 28ain am 10.00 o'r gloch. Pris Mynediad £1.

Rydym wedi bod yn lwcus iawn i sicrhau cwmni **Glyn Williams, Borth y Gêst** ar **nos Wener 4ydd o Hydref**, yn Capel Llanrhaeadr am 7yh, yn dweud ei hanes ac ambell i gân. Bydd croeso mawr i unrhyw un o'r Fro ymuno â ni ar y noson yma, yng Nghapel y Pentre. Pris £5.

MARCHNAD NADOLIG Y WAEN, TACHWEDD 23, 10:00-1:00 y.p.
ER BUDD GOFAL DYDD A HELPU'N GILYDD

Bydd y Farchnad Nadolig yn fwy eleni gyda rhai stondinau allanol, lluniaeth, côr ysgol lleol yn canu carolau, gweithgareddau i blant a Sion Corn gyda anrheg i bob plentyn. Bydd rhagor o Pwdinau Nadolig y Waen ar werth hefyd eleni wedi iddynt werthu allan yn fuan iawn yn 2018! Mae cardiau Nadolig hefyd wedi cyrraedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth i'n hymdrechion i godi arian angenrheidiol ini gario mlaen i roi gofal a chefnogaeth i rai o fobl mwya bregus ein cymunedau, llawer ohonynt yn byw yn ardal Eglwysi Bro Dinbych.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Medi 1af
2.00 - Parch Nesta Davies
Dydd Sul, Medi 29ain
10.00 - Mr Celfyn Williams

Gobeithio fod pawb wedi mwynhau yr haf ac yn edrych ymlaen at y tymor Newydd.

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Medi 1af
Oedfa Gymun yng Nghapel y Fron - Y Bugail am 11.00
Dydd Sul, Medi 8ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Irfon Parry am 2.00
Dydd Sul, Medi 15ed
Ysgol Sul am 10.00
Mr Huw Vaughan Jones am 2.00
Dydd Sul, Medi 22ain
Oedfa'r Teulu - Y Bugail am 11.00
Dydd Sul, Medi 29ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Bernard Thomas am 2.00

Sul Dathlu'r Capel yn 150 - Bu'r Oedfa dan ofal ein Gweinidog gyda Magi a Gwen Davies, Cai a Rhys Jones, Mari a Beca Edwards a Cari a George Cattell yn ledio yr emynau. Cafwyd braslun o hanes y capel gan Dilwyn Jones. Dilwyn fu yn gyfrifol am olygu y llyfryn o'r hanes ac a gyflwynodd y cwpan dathlu. Diolch yn fawr Dilwyn. Eleanor Roberts oedd yr organyddes.

Yn dilyn y gwasanaeth cawsom fynd i'r Te Dathlu yn Felin Brwcws. Braf oedd cael cwmni nifer a fagwyd yng Nghapel Brwcws. Diolch i bawb a wnaeth y diwrnod yn llwyddiant ysgubol.

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul, Medi'r 1af am 9.45 yb
Mrs Gwenda Humphries
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15yb
Emyn a Darllen - Anwen
Organ - Iona
Blodau - Menna E

Dydd Sul, Medi'r 8fed am 11 yb
Parch Andras Iago
Gwasanaeth Cymun ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30 yb
Emyn a Darllen - Lis
Emyn a Darllen Plant - Mati Nel
Organ - Lona Meleri
Blodau - Alma

Dydd Sul, Medi'r 15fed am 9.45 yb
Dr Owain Edwards
Gwasanaeth gyda Cyfeillion Gellifor yn ymuno
Ysgol Sul Plant
Emyn a Darllen - Bryn
Organ - Anwen
Blodau - Julia

Dydd Sul, Medi'r 22ain am 9.45 yb
Gwasanaeth dan ofal Teulu Hafod y Bryn
Ysgol Sul Plant
Organ - Ann
Blodau - Gwyneth

Dydd Sul, Medi'r 29ain am 9.45 yb
Parch Andras Iago
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Iona
Emyn a Darllen Plant - Eleanor/Anna
Organ - Glenys
Blodau – Karen

GELLIFOR

Dydd Sul, Medi 1af
4.00 - Paned a Sgwrs
Gymdeithas

Dydd Sul,Medi 8fed
9.45 – Gweinidog
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Breian
Organ – Alaw
Blodau - Alwena

Dydd Sul,Medi 15fed Capel y Dyffryn
9.45 - Dr Owain Edwards

Dydd Sul, Medi 22ain
9.45 – Trefniant Ni
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Hafod y Coed
Organ – Nia
Blodau – Bryn Tirion

Y FRON

Llywydd y mis – Richard Snelson

Dydd Sul, Medi 1af
11.00 Fron – Bugail – Oedfa Gymun
Dydd Sul, Medi 8fed
10.00 – Capel Mawr – Parch Irfon Parry, Graig y Don
5.30 – Fron - _Parch orfon Parry, Graig y Don
Dydd Sul, Medi 15fed
10.00 - Fron – Cyfarfod Gweddi
5.30 – Capel Mawr – Mr Huw Vaughan Jones
Dydd Sul, Medi 22ain
11.00 – Brwcws – Bugail
Dydd Sul, Medi 29ain
10.00 – Fron – Parch Bernard Thomas
5.30 – Capel Mawr – Parch Bernard Thomas

Casglyddion – Mr Aelwyn Lloyd a Mr John Geraint Jones

Organyddion – Iona Edwards, Eiri Jones

Croeshawu:
1af – Aelwyn Lloyd
8fed – Gwyrfai Jones
15fed – John Howatson
22ain – Gaynor Prew
29ain – Carys Jones

Rhoddwyr y Blodau - yn gyfrifol Eiri Jones
1af – Gwenda Owens
8fed – Eiri Jones
15fed – Helena Morris
22ain –
29ain -

Paratoi Llestri'r Cymun – Pamela Lloyd a Olwen Griffiths

Cofiwch gefnogi ein Ffair Hydref bore dydd Sadwrn Medi 28ain yn Eirianfa o 10 y bore ymlaen. Pris mynediad £1.
Diolch yn fawr i'r aelodau sydd yn dod a cynyrch i'r bocs yn y cyntedd ar gyfer Banc Bwyd.
Mi fydd aelodau Cymdeithas Chwiorydd yn ymweld a Pont y Tŵr Nos Fercher Medi 11eg, y mae croeso i'r brodyr ymuno. Yr ydym yn bwriadu cychwyn am 5.00 o'r gloch.
Yr ydym yn anfon ein cofion at Tegwen Williams a Carys Jones. Y mae y ddwy wedi colli perthnasau yn ystod y mis. Derbyniwch ein cydymdeimlad.

Y CAPEL MAWR A SEION

DALIER SYLW

****Cofiwch pan fo'r Gwelnidog gyda ni yn y bore - yn Y Capel Mawr, Y Brwcws neu'r Fron - bydd yr oedfa am 11am.**

Dydd Sul, Medi 1
*11am - Y Fron. Y Bugail. Gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon

Dydd Sul, Medi 8
10am – Y Capel Mawr – Y Parch. Irfon Parry
5.30pm – Y Fron – Y Parch. Irfon Parry

Dydd Sul, Medi 15
10am – Y Fron – Cyfarfod Gweddi
5.30pm – Y Capel Mawr – Mr Huw Vaughan Jones

Dydd Sul, Medi 22
11am – Y Brwcws – Y Bugail – oedfa ar gyfer tair eglwys y dref
5.30pm – Y Fron – Y Bugail

Dydd Sul, Medi 29
10am – Y Fron – Y Parch. Bernard Thomas
5.30pm – Y Capel Mawr – Y Parch. Bernard Thomas

Llywydd Y Mis: – Mr Stan Lyall

Casglyddion/ Wrth y Drws:- Mr Glyn Jones Mr Bedwyr Griffiths

Organydd/ Cyfeilydd:-
Medi 1 - Mrs Catrin Warren
Medi 8 - Mrs Dorothy Rogers
Medi 15 - Mrs Dorothy Rogers
Medi 29 – Mrs Catrin Warren

Blodau
Medi 8 - Mrs Lilian Jones

Llety'r Pregethwyr:-
Medi 8 – Y Fron

CYDYMDEIMLAD - Cydymdeimlwn â Mrs Freda Evans yn ei phrofedigaeth o golli brawd a chwaer-yng-nghyfraith yn ddiweddar. Meddyliwn amdani yn ein gweddïau.

TREFNIADAU NEWYDD

Mae'n debyg bod y rhai craff yn eich plith wedi sylwi yn ôl y manylion uchod ein bod yn dilyn cynllun newydd o Fedi ymlaen.

Ar Fedi 22ain byddwn yn ymuno â chynulleidfaoedd Y Brwcws a'r Fron ar gyfer oedfa foreol yn Y Brwcws am 11 o'r gloch.
Y bwriad ydyw dilyn trefniant o'r fath gyda chynulleidfaoedd y tair eglwys yn dod at ei gilydd yn achlysurol ar gyfer oedfa foreol naill ai yn Y Capel Mawr, Y Fron neu'r Brwcws.

Hyderwn y rhydd cynulleidfa Y Capel Mawr yn cefnogi'r trefniant newydd hwn. Os ydych angen cludiant i unrhyw un o'r gwasanaethau, cysylltwch ag unrhyw un o'r Swyddogion ymlaen llaw. Mater bach fydd hi i ni drefnu hynny. Fyddwch chi ddim yn achosi unrhyw drafferth o gwbl.

Er mwyn bod yn sicr o'r trefniadau, craffwch yn fanwl yn fisol ar eich copi o Cadwyn Bro.

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Medi 1af
9.45 – Prion - Mr Peter Smith
Dydd Sul, Medi 8fed
9.45 - Pentre - Parch Robert Parry
Dydd Sul, Medi 15fed
10.00 - Taith i Tŷ Mawr Wybrnant
Dydd Sul, Medi 22ain
9.45 - Prion - Parch Nesta Davies
Dydd Sul, Medi 29ain
9.45 – Pentre - Mrs Helena Jones - Pregeth Diolchgarwch

Taith Mis Medi - Byddwn yn ymweld â Thŷ Mawr Wybrnant Dydd Sul 15fed Medi, (nid yr 8fed fel mae yn ymddangos ar y Suliadur). Dechrau o'r capel am ddeg y bore. Ar ôl cyrraedd Wybrnant, gwasanaeth byr yng ngofal Andras, ac yna cawn ymweld â'r tŷ a chael hanes yr Esgob William Morgan.

Bydd cyfle i weld yr ardd Duduraidd a mynd o amgylch y llwybr natur. Ar ôl yr ymweliad bydd opsiwn i fynd i Betws y Coed os fydd amser a tywydd yn caniatau.

Cofiwch ddod â phicnic, ac os oes gennych gerdyn Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn cael mynediad am ddim!

Mynediad £3.50 a £1.50 i blant

Enwau os gwelwch yn dda i Carys neu Llinos erbyn Sul 8fed, fe fyddwn yn trefnu i fynd mewn ceir, gadewch i ni wybod os fydd angen cludiant arnoch.

CYDYMDEIMLO - Trist iawn gennym glywed y newyddion am ddau gyn-aelod, Dei, Cwm Parc gynt, a hynny dim ond ychydig o fisoedd ar ôl symud i'r Bala. Roedd wedi bod yn aelod ffyddlon iawn yma yn y Pentre, ac roedd ef a Mair wedi bod yn ofalwyr ardderchog ar y Capel ers bron i ddeunaw o flynyddoedd.

Hefyd, Alun Baines Jones, a fu hefyd yn aelod ffyddlon yma yn y Pentre, ac wedi rhoi oriau o'i wasanaeth fel Arweinydd y Gân, ac wrth gwrs yn aelod gwerthfawr o Hogiau'r Pentre, ein cofion at eu teuluoedd i gyd

COFION - Ein cofion at Mr John R Hughes, a nifer sydd wedi bod eto o dan brofion, ac at David, Dyffryn sydd wedi bod yn ysbyty Glan Clwyd am gyfnod yn ystod yr Haf. Hefyd Trefor, Ffrith Isa dreuliodd noson yn Ysbyty Glan Clwyd ar ôl cael triniaeth. Gwellhad buan i Ruth Glan Aber ar ôl torri ei garddwn, ac i Ceri Rawson ar ôl llaw driniaeth yn Abergele.

RHAGHYSBYSIAD - Rydym wedi bod yn lwcus iawn i sicrhau cwmni Glyn Williams, Borth y Gêst ar nos Wener 4ydd o Hydref, am 7yh, yn dweud ei hanes ac ambell i gân . Bydd croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni ar y noson yma, yng Nghapel y Pentre Pris £5

Y GLYN

Dydd Sul Medi 8fed, trip y capel (manylion i ddilyn)
Dydd Sul, Medi 29ain - oedfa am 2 o'r gloch gyda'r Parch Andras Iago

Llongyfarchiadau mawr iawn i Dafydd , Pen Bryn Llan ar ei lwyddiant yn 'Steddfod Llanrwst yn ennill gwobr Goffa Osborne Roberts, Y Rhuban Glas , 1af gyda'r Hen Ganiadau ac 2il ar yr unawd Lieder - 'steddfod i'w chofio!
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Elfyn , Pen Bryn Llan ar ol ei lawdriniaeth yn ddiweddar.
Pob hwyl i Ynyr, Pen Bryn Llan sy'n cychwyn yng ngholeg Harper Adams.

TREFNANT

Llywydd y Mis : EIFION WILLIAMS

Dydd Sul, Medi 1af
9.45 - Gwasanaeth y Cymun dan ofal y Gweinidog
11.00 YSO
3.30 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl Blodau - Eileen Humphreys

Dydd Sul, Medi 8fed
10.00 - Parchedig Trefor Jones 11.00 YSO
3.30 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl Blodau - Gwennan Davies

Dydd Sul, Medi 15ed
10.00 - Parch John Owen 11.00 YSO
3.00 - Parch John Owen Blodau - Angharad Ellis

Dydd Sul, Medi 22ain
9.45 - Gweinidog -Parch. Andras Iago 11.00 YSO
3.30 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl Blodau - Laura Roberts

Dydd Sul, Medi 29ain
10.00 - Parchedig Megan Williams gyda phaned a sgwrs i ddilyn
3.00 - Parchedig Megan Williams Blodau - Laura Roberts

YSGOL SUL Y PLANT - Bydd y plant yn symud i'r festri ar ol rhannau dechreuol y gwasanaeth i'w harwain gan Angharad Ellis ac Anwen Evans.

Organyddion yn yr holl wasanaethau - Margaret Peel ag Elizabeth Williams

CYFARFODYDD GWEITHGAREDDAU - Bydd y cyfarfodydd yn ail-gychwyn pnawn Llun Medi 'r 16eg rhwng 2.00 a 4.00pm. Mae hwn yn gyfle i ni dreulio amser yn cymdeithasu, cyd-addoli yn ogystal a chreu amrywiol grefftau gyda'n gilydd. Croeso cynnes i bawb sy'n dymuno ymuno a chael cwmni difyr am brynhawn.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL - Bydd rhaglen y tymor hwn ar gael ym Mis Medi. Bydd y cyfarfodydd yn dechrau gyda ein Gwyl Ddiolchgarwch fydd ar Nos Fercher 2il a Nos Iau 3ydd o Hydref.

Cynhelir ein Gwasanaeth Gweddi a Mawl nos Fercher a disgwyliwn y Parchedig Robert Parry atom i wasanaethu ar y Nos Iau gyda Swper y Cynhaeaf i ddilyn. Gwneir ein casgliad arferol at Cymorth Cristnogol yn ystod yr Wyl.

LLONGYFARCHIADAU i bawb fu'n llwyddiannus mewn arholiad, sioe neu eisteddfod yn ystod yr haf - da iawn chi i gyd.

COFION A DYMUNIADAU GORAU i bawb sydd wedi methu addoli gyda ni yn ystod yr haf - yn arbennig Marian Roberts yng Nghartref Dolwen, Betty Griffiths a John Morris, y ddau yn gaeth i'w cartrefi erbyn hyn. Cofiwn amdanoch i gyd yn ystod ein gwasanaethau o Sul i Sul.

Newyddion rhifyn Hydref o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Medi 20fed
e-bost : meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417